# LLEISIAU COLL: YR HAWL I GAEL EU CLYWED





Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Gorffennaf 2014

**Gwybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru**
Sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant a phobl ifanc yw Comisiynydd Plant Cymru. Sefydlwyd y swyddfa yn 2001 a phrif amcan y Comisiynydd, fel a nodwyd yn Deddf Safonnau Gofal 2000, yw i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae hefyd dyletswydd arno, o dan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhopeth mae e a'i dîm yn ei wneud. Gall y Comisiynydd edrych ar holl faterion sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, os yw'r mater yn effeithio ar hawliau neu lles plant.

**Cyd-destun deddfwriaeth byr**
Yn **Neddf Plant 1989** y rhoddwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol am y tro cyntaf i sefydlu trefniadau ar gyfer ystyried cwynion a sylwadau gan blentyn neu berson ifanc sy'n 'derbyn gofal' neu 'sydd mewn angen'.

Yn 1991 cadarnhawyd **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Confensiwn yn cynnwys dwy hawl benodol sy'n ymwneud a llais y plentyn:

— Erthygl 12: Mae gennych hawl i ddweud beth yn eich barn chi ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi a dylai ystyriaeth gael ei rhoi i'ch barn chi.
— Erthygl 13 : Mae gennych hawl i gael rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol i chi neu eraill.

Yn 2004 fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail ar gyfer polisiau yn y maes hwn ac yn 2011 fe wnaeth Llywodraeth Cymru basio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).

## Cyflwyniad gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

Mae dwy flynedd ers i mi gyhoeddi "Lleisiau Coll", fy adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru. Ar y pryd, fy nghasgliad i oedd bod y grŵp hwn o blant a phobl ifanc oedd yn dymuno cael cymorth a chyngor gan eiriolwr proffesiynol annibynnol i'w helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn cael cam. Nid oedd gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol ar gyfer yr holl rai hynny y dylent fod yn eu cyrraedd, nid oedd plant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda hwy'n eu deall yn dda iawn, roedd y trefniadau ar gyfer darparu cyllid ac adnoddau'n anghyson, nid oedd gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio a'u harolygu'n effeithiol, ac roedd ymrwymiad a brwdfrydedd cynnar Llywodraeth Cymru i ddarparu canolfan ragoriaeth ar gyfer y gwasanaeth allweddol hwn wedi pylu a phallu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Yn yr adroddiad hwnnw fe gyflwynais i nifer o argymhellion yn y gobaith y byddai'r rhain yn adfywio diddordeb partneriaid cenedlaethol a lleol mewn cael Cymru yn ôl ar y trywydd i gyflawni ei huchelgais ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed.

Ym mis Mai 2013 cyhoeddais adolygiad dilynol i Lleisiau Coll – "Lleisiau Coll, Cynnydd Coll" oedd yn edrych yn benodol ar y trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol. Roedd awdurdodau lleol wedi nodi yn eu hymatebion i argymhellion "Lleisiau Coll" eu bod yn edrych ar fodelau gwahanol o gomisiynu gwasanaethau a sut y gallen nhw ailfodelu eu gwasanaethau cyfredol. Roeddwn yn siomedig ag arafwch y cynnydd a ganfuwyd yn sgil yr adolygiad hwn ac fe gyflwynais argymhellion pellach i Lywodraeth Cymru ac i'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth ynghylch yr hyn oedd angen ei newid.

Ar yr adeg hon hefyd fe gynullais i drafodaeth bwrdd crwn rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth a chynrychiolwyr o blith y Darparwyr Eiriolaeth. Roeddwn i am sicrhau bod yr holl asiantaethau a sefydliadau oedd â chyfrifoldeb am sicrhau bod eiriolaeth yn ôl ar y trywydd iawn yn ymrwymo'n llawn i'r hyn yr oedd angen iddyn nhw ei wneud, a'u bod yn ei ddeall. Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn arall ym mis Hydref 2013 i edrych ar y cynnydd o ran yr ymrwymiadau oedd wedi'u gwneud yn y cyfarfod cyntaf.

Roeddwn wedi nodi fy mwriad i ymgymryd ag adolygiad llawn o argymhellion Lleisiau Coll yn y casgliad i "Lleisiau Coll – Cynnydd Coll" ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roeddwn i am i'r adroddiad ganolbwyntio ar farn plant a phobl ifanc a'u profiadau o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae llawer o'r asiantaethau proffesiynol sy'n gyfrifol am ddarparu a chydlynu'r gwasanaeth hwn i blant a phobl ifanc wedi fy sicrhau bod pethau'n gwella ac yn symud i'r cyfeiriad iawn, ond roeddwn i'n pryderu bod plant a phobl ifanc nad oedden nhw'n ymwybodol o'r cymorth y dylen nhw fod â hawl iddo, nac yn ei dderbyn, yn dal i fod yn cysylltu'n rheolaidd gyda fy nhîm Cyngor a Chymorth. Roeddwn i am fy sicrhau fy hun fod y cynnydd yr oedd gweithwyr proffesiynol yn sôn amdano yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau bywyd plant a phobl ifanc.

Yn gynharach eleni cyhoeddodd Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ddatganiad gweinidogol ar Eiriolaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal, y Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen[1] oedd yn nodi:

1 Datganiad Ysgrifenedig – Datganiad ar Eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal a phlant mewn angen (Llywodraeth Cymru Ionawr 2014)

"Rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymchwiliadau i achosion hanesyddol o gam-drin plant. Mae achosion o'r fath yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni fod ar ein gwyliadwriaeth yn gyson er mwyn amddiffyn yr aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Thema gyffredin yn yr achosion dan sylw oedd y ffaith nad oedd pobl yn gwrando ar y plant, nac yn eu credu. Nid oes modd i ni newid y gorffennol, ond mae gwersi y gallwn eu dysgu… Nid oes modd i ni orbwysleisio pwysigrwydd eiriolaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar ein plant a'n pobl ifanc pan fyddant yn dweud bod rhywbeth o'i le, pan fo angen help arnynt, pan fo penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud a bod ganddynt rywbeth i'w ddweud am y mater, a phan fo angen rhywun i'w cefnogi… Rhaid i'r ddarpariaeth hon fod yn gwbl ganolog yn nhrefniadau awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant… rhaid i awdurdodau lleol hefyd fod yn hyderus bod ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn ddigon da er mwyn sicrhau bod y trefniadau diogelu yn effeithiol, a bod modd i blant a phobl ifanc gyrraedd at y gwasanaethau y maen nhw'n eu haeddu".

Rwyf i'n cytuno i'r carn gyda'r hyn a fynegir yn y datganiad hwn. Mae'r neges yn glir iawn, a dyna pam rwyf i'n siomedig ac yn bryderus nad yw profiad nifer sylweddol o blant a phobl ifanc fregus mewn perthynas ag eiriolaeth yn adlewyrchu'r bwriadau da a amlinellir uchod ac iddyn nhw, mae'n ymddangos nad oes fawr wedi newid ers "Lleisiau Coll" yn 2012.

# Methodoleg

Mae'r adolygiad hwn wedi'i gynnal drwy ddefnyddio fy mhwerau a swyddogaethau sy'n deillio o'r Ddeddf Safonau Gofal (2000) a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (2001), sy'n fy ngalluogi i adolygu'r gweithdrefnau sydd gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

Er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc gofynnais i awdurdodau lleol hwyluso a chydlynu'r gwaith o gwblhau arolygon rhyngweithiol wedi'u cynllunio gan gwmni oedd eisoes yn wybyddus i nifer o awdurdodau lleol ac oedd yn cael ei gyflogi ganddynt. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn creu arolygon ar-lein sy'n gweithio i blant a phobl ifanc, a byddai pob arolwg yn cymryd rhwng 10 a 30 munud i'w gwblhau. Byddai'r arolygon gwe yn hygyrch i blant a phobl ifanc o wahanol oedrannau oedd yn gallu defnyddio dyfeisiadau cyfathrebu digidol priodol. Roedd awdurdodau lleol yn gallu cael cymorth technegol a gwybodaeth rheoli'r awdurdodau lleol unigol gan y sefydliad oedd yn darparu'r arolwg ar-lein.

Roedd yr arolwg yn gofyn i blant a phobl ifanc am eu dealltwriaeth, gwybodaeth a phrofiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn gallu dethol cymeriad a thema wahanol i'r arolwg oedd yn rhyngweithiol ac oedd ag opsiwn "siarad gyda fi" llafar. Fel gwobr am gwblhau'r arolwg, roedd y plant a'r bobl ifanc yn cael chwarae gêm gyfrifiadurol fer.

Roeddwn i wedi rhagdybio y byddai plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio cyfrifiaduron / gliniaduron / tabledi / ffonau drwy'r cartref, yr ysgol, y gwasanaethau ieuenctid, neu drwy eu cyswllt â gweithwyr proffesiynol.

Mewn oes lle'r ydym ni'n rhagdybio bod y mwyafrif helaeth o bobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfathrebu electronig roedd yn syndod i 13% o'r plant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg ddweud nad oedd ganddyn nhw gyswllt â'r rhyngrwyd yn eu cartref, cyswllt cyfyngedig iawn oedd gan 29%, a doedd gan 21% ddim modd i ddefnyddio ffôn symudol. Cwblhaodd nifer o'r plant a phobl ifanc fersiynau papur o'r arolwg a gafodd eu mewnbynnu gan yr oedolion oedd yn gweithio gyda nhw.

Roeddwn i am geisio sicrhau sampl mawr a chynrychioliadol o blant a phobl ifanc cymwys i gwblhau'r arolwg. Gosodais darged i bob awdurdod lleol o ran nifer o arolygon wedi'u cwblhau, oedd yn cynrychioli 5% o'u poblogaeth o Blant Mewn Angen yn 2012 /13.

Hefyd anfonwyd holiadur i bob awdurdod lleol yn gofyn iddyn nhw hunanasesu yn erbyn argymhellion "Lleisiau Coll". Cwblhaodd pob un o'r 22 awdurdodau lleol holiaduron. Yn yr un modd, cwblhaodd Llywodraeth Cymru holiadur hunanasesu ynglŷn â'r argymhellion a wnaed mewn perthynas â hi.

Hefyd, ar ddau achlysur bûm i'n cyfnewid tystiolaeth gyda gweithwyr proffesiynol allweddol yn y gobaith y byddai hynny'n fy ngalluogi i gael golwg fwy holistig ar yr hyn oedd yn digwydd ar lefel weithredol. Bûm i'n cyfarfod â rheolwyr y tri gwasanaeth eiriolaeth sy'n darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen, ac â Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd â rhan bwysig i'w chwarae i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed mewn adolygiadau, Cynadleddau Diogelu Plant a lleoliadau eraill.

Yn olaf rwyf i wedi cysylltu a thrafod yn gyson â Chadeirydd y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth a sefydlwyd ar ôl i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol.

# Beth ddywedodd plant a phobl ifanc wrthyf i?

Roeddwn i'n siomedig yn y nifer o arolygon a ddychwelwyd gan Awdurdodau Lleol (Gweler Atodiad 1). Dim ond 3 o'r 22 awdurdod lleol a gyflawnodd eu targed (Ceredigion, Sir y Fflint, Ynys Môn), tra bod tri awdurdod lleol wedi cyflawni llai na 10% o'u targed (Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf). Er gwaethaf hyn mae'n galonogol bod barn a safbwyntiau nifer fawr o Blant sy'n Derbyn Gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.


Agorodd cyfanswm o 424 o bobl yr arolwg gyda 398 yn cwblhau'r cwestiynau cyntaf am fanylion personol.

Aeth cyfanswm o 384 o blant a phobl ifanc ymlaen i gwblhau'r cwestiynau am eiriolaeth gyda 321 yn cwblhau'r arolwg.

O'r 384 o blant a phobl ifanc a gwblhaodd y cwestiynau am eiriolaeth roedd 219 (57%) yn fenywaidd a 165 (43%) yn wrywaidd

| Oed | Nifer yn cwblhau | % |
|---|---|---|
| Dan 10 | 29 | 8 |
| 10-12 | 50 | 13 |
| 13-15 | 109 | 28 |
| 16-18 | 147 | 38 |
| 19+ | 49 | 13 |
| **Cyfanswm** | **384** | **100** |


**Pa un o'r rhain yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi?**



| Ymatebion | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Gwyn, neu Wyn Prydeinig | 365 | 92 |
| Du neu Ddu Prydeinig | 4 | 1 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 8 | 2 |
| Cefndir Cymysg | 14 | 3.5 |
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Sipsiwn/Romani/ Teithiwr | 2 | 0.5 |
| Grŵp Ethnig Arall (nodwch yn y Nodiadau) | 4 | 1 |
| Heb ateb | 0 | 0 |
| | 0 | 0 |
| **Cyfanswm (Ymatebion)** | **397** | **100** |

Cefais fy nghalonogi hefyd fod nifer o blant a phobl ifanc ag anabledd yn gallu mynegi eu barn. Cwblhaodd 27 o blant a phobl ifanc ag anabledd yr arolwg gan ddynodi'r canlynol fel anabledd. Nododd 27 o ddefnyddwyr gyfanswm o 41 anabledd gwahanol.


**Beth yw eich anabledd?**
Dewiswch BOB un sy'n gymwys i chi




**Cyfanswm (defnyddwyr)**
**41**

Roedd yr arolygon a gwblhawyd hefyd yn dangos cynrychiolaeth o blant a phobl ifanc yn byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol. Roedd nifer sylweddol yn byw mewn gofal neu ar eu pen eu hunain.

**Gyda phwy ydych chi'n byw?**




**Cyfanswm (Ymatebion)**
**389**

## Negeseuon Allweddol

Dywedodd 38% o'r plant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg nad oedden nhw wedi clywed am eiriolaeth erioed.

Nid oedd 48% o blant a phobl ifanc yn gwybod neu roedden nhw'n ansicr beth yw eiriolaeth.

Nid oedd 63% o blant a phobl ifanc yn gwybod pwy oedd eu darparwr eiriolaeth.

Nid oedd 51% o blant a phobl ifanc yn gwybod neu roedden nhw'n ansicr ynglŷn â sut i gysylltu â'u darparwr eiriolaeth.

Nid oedd 52% o blant a phobl ifanc yn gwybod neu roedden nhw'n ansicr a oedd eiriolwr yn eu hardal.

Nid oedd 44% o blant a phobl ifanc yn gwybod sut i gysylltu ag eiriolwr.

Nid oedd 42% o blant a phobl ifanc yn gwybod neu roedden nhw'n ansicr sut mae eiriolwr helpu pobl ifanc.


Dywedodd 40% o blant a phobl ifanc nad oedden nhw'n cael eu hatgoffa'n rheolaidd am eu hawl i gael eiriolwr ac roedd 20% arall yn ansicr am hyn.

Dywedodd 34% o blant a phobl ifanc nad oedd neb erioed wedi gofyn iddyn nhw a oedden nhw'n dymuno cael eiriolwr.

Dywedodd 29% o blant a phobl ifanc oedd heb gael eiriolwr y bydden nhw'n hoffi cael un.

Rwyf i'n hynod o siomedig bod niferoedd sylweddol o blant a phobl ifanc agored i niwed yn dal i adrodd nad ydyn nhw'n gwybod beth yw eiriolaeth, nad ydyn nhw'n gwybod sut i fanteisio ar eiriolaeth, ac nad ydyn nhw'n cael eu hatgoffa am eu hawl i gael eiriolwr. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod y mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hwn mewn cyswllt â gweithwyr proffesiynol perthnasol.

**Cymorth Proffesiynol**
Oes gennych chi un o'r rhain?
Dewiswch BOB un sy'n gymwys i chi





**Cyfanswm (Ymatebion)**
**546**

**Cyfanswm (Defnyddwyr)**
**387**

Rwyf i'n deall na fydd yr holl blant a phobl ifanc agored i niwed yn dymuno cael cymorth eiriolwr proffesiynol annibynnol ond roedd fy arolwg yn dangos bod 1 o bob 5 yn teimlo nad oedden nhw'n cael gwrandawiad pan oedd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am eu bywydau.

**Ydych chi'n meddwl bod pobl yn gwrando arnoch chi?**
Ydych chi'n meddwl bod pobl yn gwrando ar eich barn pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud amdanoch chi?



| Ymatebion | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Ddim o gwbl | 15 | 4 |
| Ddim llawer | 63 | 17 |
| Gan amlaf | 182 | 50 |
| Ydw yn bendant | 104 | 29 |
| Heb ateb | 0 | 0 |
| **Cyfanswm (Ymatebion)** | **364** | **100** |

A siarad yn blaen, dyw hyn ddim yn ddigon da. Mae angen i wasanaethau sicrhau eu bod yn gallu dangos bod llais y plentyn neu'r person ifanc wedi cael gwrandawiad, a rhaid iddyn nhw allu dangos bod esboniad wedi'i roi i'r plentyn neu'r person ifanc pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n wahanol i'r hyn mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei ddymuno, yn egluro pam fod hyn wedi digwydd.

Yn wreiddiol roeddwn i wedi argymell yn "Lleisiau Coll " y dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn a pherson ifanc fel mater o drefn wrth ddod i mewn i'r system gofal oherwydd roeddwn i'n credu y byddai hyn o leiaf yn sicrhau na fydden nhw'n colli cyfle i gael eiriolaeth. Mae awdurdod lleol Sir Fynwy ar hyn o bryd yn gweithredu system lle mae eiriolwr yn cysylltu fel mater o drefn gyda'r holl blant a phobl ifanc sy'n dod i'r system gofal, ac yn sgil yr arfer hwn, maen nhw'n adrodd bod y nifer sy'n manteisio ar wasanaeth eiriolaeth yn uchel. Yn ôl swyddog Adolygu Annibynnol Sir Fynwy roedd yn ymddangos bod Gweithwyr Cymdeithasol yn teimlo bod gwneud hyn yn awtomatig fel rhan o'r broses arferol pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod i ofal yn llai o fygythiad iddyn nhw, a'i fod yn helpu i wrthbrofi'r syniad bod eiriolaeth yn ymwneud â chwyno yn unig. Fodd bynnag rwyf i'n ymwybodol nad yw pob plentyn neu berson ifanc yn dymuno cael cyswllt o'r fath ac mae hyn wedi'i brofi yn yr ymatebion i fy arolwg:

**Ydych chi'n hapus i'ch gweithiwr cymdeithasol rannu eich manylion cyswllt gyda'ch darparwr eiriolaeth lleol er mwyn iddyn nhw allu cysylltu â chi?**

| Ymatebion | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Ydw | 174 | 52 |
| Ddim yn siŵr | 74 | 22 |
| Nac ydw | 87 | 26 |
| Heb ateb | 0 | 0 |
| **Cyfanswm (Ymatebion)** | **335** | **100** |

Bydd rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth sicrhau eu bod yn defnyddio mesurau amgen i sicrhau bod cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud i'r holl blant a phobl ifanc cymwys. Nid yw'n dderbyniol bod 95 o blant a phobl ifanc a ymatebodd i fy arolwg, nad oedd wedi cael eiriolwr yn flaenorol, yn dweud y bydden nhw'n hoffi cael cysylltiad gydag eiriolwr nawr. Pam nad chawsant gynnig eiriolwr o'r blaen?

Mae'n fy mhryderu i lawn gymaint bod 10 % o blant a phobl ifanc yn meddwl bod modd eu hatal rhag siarad ag eiriolwr ac felly o bosibl yn peidio â thrafferthu ceisio manteisio ar y cyfryw gymorth. Yn amlwg mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd o ran hyrwyddo a deall eiriolaeth ymhlith plant a phobl ifanc.

Roedd y plant a phobl ifanc oedd wedi cael cyswllt gyda gwasanaethau eiriolaeth (151 a ymatebodd i'r holiadur) ar y cyfan yn gadarnhaol iawn:

**"Roedd yn hawdd iawn siarad gyda'r eiriolwr ac roedd yn barod i helpu."**

**"Mae fy mhrofiadau i wedi bod yn ddymunol bob tro ac roedd y tîm yn hynaws ac yn barod i helpu."**

Profiadau fel hyn ddylai fod ar gael i'r holl blant a phobl ifanc cymwys lle bynnag y bônt yng Nghymru ac â phwy bynnag y byddan nhw'n cysylltu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

# Cynnydd mewn perthynas â'r Awdurdodau Lleol

Anfonwyd holiadur at bob awdurdod lleol gyda gofyniad iddyn nhw hunanasesu yn erbyn argymhellion "Lleisiau Coll". Roedd gwybodaeth benodol yn cael ei cheisio mewn perthynas â phob un o'r argymhellion. Dychwelodd pob un o'r 22 awdurdod lleol holiaduron ond mewn un achos, roedd rhaid cael ymyriad gan y Prif Weithredwr i sicrhau hyn.

Roedd yn amlwg o'r hyn oedd yn cael ei adrodd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o fewn awdurdodau lleol mewn perthynas â'r materion a godwyd gennyf yn "Lleisiau Coll". Rhannwyd gwybodaeth am amrywiaeth eang o ymarfer da a byddaf yn cyfeirio at enghreifftiau drwy'r adran hon yn yr adroddiad. Dyw hi'n ddim syndod bod ymarfer yn amrywio ar draws Cymru, fel roedd cyflymder y newid. Cadarnhawyd hyn pan fûm i'n cyfnewid tystiolaeth gyda swyddogion adolygu annibynnol, gyda rhai o'u plith yn gallu adrodd bod rhai newidiadau cadarnhaol sylweddol wedi digwydd oedd wedi arwain at gynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc oedd yn manteisio ar eiriolaeth tra bo eraill yn adrodd mai ychydig o newid a gafwyd dros y ddwy flynedd ers cyhoeddi "Lleisiau Coll". Codwyd pryderon am effaith toriadau ar gyllidebau awdurdodau lleol a oedd mewn rhai achosion wedi arwain at doriadau i gyllidebau'r darparwyr eiriolaeth gydag ansicrwydd am ddyfodol tymor hirach contractau eiriolaeth. Mewn rhai awdurdodau roedd hyn wedi arwain at restrau aros am y ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol a phryderon nad oedd digon o eiriolwyr ar gael i gwrdd â'r galw.

Efallai mai'r peth mwyaf trawiadol yw nad oedd y cynnydd cadarnhaol a adroddwyd gan yr holl awdurdodau lleol yn cael ei adlewyrchu yn yr hyn roedd nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn ei ddweud wrth ymateb i'r arolwg eiriolaeth. Roedd profiadau plant a phobl ifanc oedd mewn cyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn awgrymu mai ychydig iawn sydd wedi newid ers cyhoeddi "Lleisiau Coll" yn enwedig mewn perthynas â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eiriolaeth.

# Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc

Mae nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn parhau i adrodd nad ydyn nhw wedi clywed am eiriolaeth erioed ac nad ydyn nhw'n gwybod neu nad ydyn nhw'n siŵr beth yw eiriolaeth, er gwaethaf y ffaith fod darparwyr eiriolaeth ac awdurdodau lleol yn adrodd eu bod yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau gwahanol i hyrwyddo'r gwasanaethau, ac yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth fynd ati i ddylunio deunydd hyrwyddo.

**Adroddodd awdurdod lleol Blaenau Gwent fod eu darparwr eiriolaeth lleol, NYAS, wedi cynhyrchu DVD sy'n cael ei roi i blant a phobl ifanc wrth iddyn nhw ddechrau derbyn gofal. Mae deunyddiau ysgrifenedig eraill wedi'u cynhyrchu mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc.**

**Mae awdurdod lleol Merthyr wedi cynhyrchu dwy daflen sydd wedi'u hanelu at oedrannau penodol ac sydd wedi'u dylunio gan blant a phobl ifanc. Ar gyfer y grŵp oedran iau mae'r taflenni darluniadol yn esbonio bod eiriolaeth yn annibynnol (gydag esboniad) ac yn gyfrinachol (gydag esboniad) tra bo'r daflen i'r arddegau'n cynnwys gwybodaeth am hawliau a chwyno.**

**Mae darparwr eiriolaeth awdurdod lleol Ceredigion, Tros Gynnal Plant, wedi llunio taflen gyda symbolau i blant a phobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu**

**Bu plant a phobl ifanc awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn helpu i ddatblygu gwefan yr awdurdod sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y gwasanaethau. Mae wedi dod yn glir drwy'r ymarfer hwn mai gwefannau, apiau a rhwydweithiau cymdeithasol yw'r ffordd orau i gyfathrebu gyda phobl ifanc yn hytrach na thaflenni traddodiadol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn ystyried datblygu gwybodaeth briodol a hygyrch fel rhan o'u contract diwygiedig gyda'u darparwr eiriolaeth.**

Roedd llawer o enghreifftiau da o iaith ac esboniadau clir o eiriolaeth a beth y gall ei ddarparu:

**"Eiriolwr yw rhywun fydd yn gwrando arnoch chi ac yn eich helpu chi i ddweud eich dweud."**

**"Maen nhw'n gallu mynd i gyfarfodydd gyda chi, eich helpu chi gyda chwynion, esbonio pethau a'ch helpu chi i ddeall beth sy'n digwydd…"**

**"Mae'n gallu eich helpu chi i wneud penderfyniadau ac yna siarad dros beth rydych chi'n dymuno ei gael a beth sydd ei angen arnoch chi. Mae'n ceisio gwneud yn siŵr fod eich hawliau chi'n cael eu parchu a bod pobl eraill yn deall beth rydych chi am ei gael a sut rydych chi'n teimlo."**

Serch hynny roedd nifer o enghreifftiau hefyd lle'r oedd yr esboniad yn llai clir gyda iaith gymhleth oedd yn anodd ei deall. Nododd pedwar awdurdod lleol eu bod wrthi'n ailwampio eu deunyddiau gan nad oedd eu deunyddiau cyfredol yn ddigon clir.

Roeddwn i'n siomedig fod 10 o'r 22 awdurdod lleol wedi adrodd nad oedden nhw'n ceisio adborth gan blant a phobl ifanc am y deunyddiau roedden nhw'n eu llunio hyd yn oed os oedd y deunyddiau hynny wedi'u datblygu gan blant a phobl ifanc eraill. Byddwn i'n credu y byddai gwrando ar yr hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud am ddeunydd hyrwyddo yn ddull effeithiol o asesu pa mor effeithiol oedd y deunyddiau hynny ac nid yw'n beth anodd ei wneud.

**Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych yn bwriadu systemeiddio adborth gan yr holl blant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaeth ganddyn nhw, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, drwy gael eu swyddog datblygu busnes i ofyn iddyn nhw gwblhau ffurflen yn holi eu barn am ansawdd a chyflwyniad y gwasanaethau ac awgrymu gwelliannau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol.**

Y gobaith yw y bydd mabwysiadu proses o'r fath yn sicrhau'r math o wybodaeth mae Merthyr yn ei chasglu ar hyn o bryd; gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth werthfawr ac a fydd yn sicrhau bod deunyddiau yn cael eu cynhyrchu y bydd plant a phobl ifanc yn eu deall yn hawdd ac a fydd yn eu helpu i fanteisio ar wasanaethau. Roedd plant a phobl ifanc ym Merthyr wedi adrodd bod y taflenni yn:

**"Hawdd eu deall – mae'r lluniau'n dangos beth rydych chi'n ei wneud."**

**"…roedd fy eiriolwr yn gwneud yr un peth â'r lluniau – a helpodd fi'n fawr."**

**"Pan edrychais i ar y daflen roeddwn i'n gwybod y byddwn i'n gallu siarad gyda'r gwasanaethau eiriolaeth."**

**"Pan welais i'r daflen roeddwn i'n deall mai chi oedd y bobl iawn i ffonio."**


Gofynnwyd i awdurdodau lleol gynnwys gweithdrefnau gweithrediadol a phrotocolau ar gyfer darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc o fewn eu cytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr eiriolaeth. Nid oedd yn glir a oedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys gan nifer o awdurdodau lleol, neu os oedd wedi'i chynnwys, roedd y cyfrifoldeb fel pe bai'n aros gyda'r darparwr eiriolaeth yn unig ac nid oedd yn cael ei ystyried yn gydgyfrifoldeb gyda'r awdurdod lleol. Roedd enghreifftiau o ymarfer da:

**Darparodd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin fanylion am yr wybodaeth yn eu cytundeb lefel gwasanaeth oedd yn cynnwys posteri, taflenni, gwefan y cyngor, MEIC, gwybodaeth oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, presenoldeb mewn digwyddiadau blynyddol a fforymau ieuenctid a thrwy gyfranogi gyda phlant a phobl ifanc.**

**Rhoddodd awdurdod lleol Caerdydd fanylion am daflenni dwyieithog ac amlieithog a gyd-gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, cylchlythyrau chwarterol, a thudalen Facebook i'r rhai sy'n gadael gofal a gyd-gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.**

Nododd plant a phobl ifanc a ymatebodd i fy arolwg y ffyrdd canlynol a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth i'w hyrwyddo eu hunain.

**Sut mae eich gwasanaeth eiriolaeth yn ei hyrwyddo ei hun?**
Dewiswch BOB un sy'n gymwys




**Cyfanswm (Ymatebion)**
**507**

**Cyfanswm (Defnyddwyr)**
**353**

# Cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc

Yn "Lleisiau Coll" roeddwn i wedi mynegi pryderon bod rhai plant a phobl ifanc yn y system gofal nad oedd yn gwybod am eiriolaeth ac roeddwn i wedi argymell y dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn a pherson ifanc ar yr adeg roedden nhw'n dod i mewn i'r system gofal plant statudol. Yn dilyn ymateb gan awdurdodau lleol ynghylch yr anawsterau a wynebwyd wrth geisio bodloni'r argymhelliad hwn, a phryderon na fyddai hyn o reidrwydd er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc na fyddai o bosibl yn dymuno cysylltu â pherson proffesiynol arall eto, fe gytunais cyhyd ag y byddai cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud i bobl plentyn, y byddai hynny o leiaf yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o eiriolaeth ac yn gwybod sut i ddefnyddio eu gwasanaeth lleol.

Gofynnais yn benodol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am sut roedd y cynnig gweithredol hwn yn cael ei wneud, a sut roedd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi. Dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru sy'n clustnodi eiriolwr i bob plentyn newydd sy'n dod i mewn i'r system gofal plant (Sir Fynwy) gyda'r awdurdodau eraill i gyd yn datgan eu bod yn cynnig eiriolaeth yn weithredol. Fodd bynnag yr arfer cyffredin o ran gwneud cynnig gweithredol yw bod gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn darparu pecyn plant sy'n derbyn gofal neu rywbeth tebyg i'r plentyn neu'r person ifanc ar yr adeg y mae'n dod i mewn i'r system gofal plant. Mewn llawer o awdurdodau lleol nid yw'n ymddangos bod hyn yn cynnwys trafodaeth weithredol am eiriolaeth a sut mae eiriolaeth yn wahanol i'r cymorth y gall Gweithiwr Cymdeithasol ei gynnig.

Rwyf i'n bryderus iawn nad yw hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru'n cofnodi bod cynnig gweithredol o eiriolaeth wedi'i wneud i'r plentyn neu'r person ifanc, ac felly'n methu ag adrodd am eu hymarfer yn hyn o beth. Nid yw'n bosibl felly iddyn nhw wrthddweud barn plant a phobl ifanc sydd wedi dweud wrthyf nad ydyn nhw'n gwybod am eiriolaeth ac nad oes neb wedi'i drafod gyda nhw erioed. Felly bu'n rhaid i mi dybio bod yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthyf yn adlewyrchiad cywir o'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n fy mhoeni'n fawr. Ychydig o gynnydd os o gwbl sydd wedi'i wneud ers cyhoeddi "Lleisiau Coll". Dylai awdurdodau lleol allu adrodd yn erbyn yr argymhelliad hwn ac yn wir mae nifer wedi newid eu harferion neu eu systemau cofnodi i sicrhau mai dyma sy'n digwydd.

**Mae awdurdod lleol Gwynedd wedi newid dogfennau cofnodi cynadleddau achos ac adolygiadau plant mewn angen i ddangos a yw'r gwasanaethau eiriolaeth wedi'i gynnig a'i ddefnyddio.**

**Mae awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot wedi ychwanegu dau flwch i'w system rheoli achos electronig i gofnodi a yw gwasanaeth eiriolaeth wedi'i gynnig ac a yw wedi'i ddefnyddio. Mae'r newid wedi'i wneud ers mis Chwefror 2014 ond bydd yn caniatáu iddyn nhw adrodd am hyn yn y dyfodol.**

**Mae Swyddog Adolygu Annibynnol awdurdod lleol Sir Fynwy yn rhoi rhestr o'r holl blant a phobl ifanc sy'n newydd i'r system gofal plant i Gweithredu dros Blant, sy'n darparu eu gwasanaethau eiriolaeth. Yna mae Gweithredu dros Blant yn cysylltu â'r holl blant a phobl ifanc ac yn adrodd am y nifer sy'n ymgymryd ag eiriolaeth yn eu hadroddiadau chwarterol i'r awdurdod lleol.**

# Cyfranogiad plant a phobl ifanc yn natblygiad y gwasanaethau

Cyflwynwyd enghreifftiau da iawn o gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, ac mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut gall awdurdodau lleol gynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrlon wrth ddatblygu gwasanaethau.

**Arweiniodd awdurdod lleol Pen-y-bont brosiect â'r bwriad o sefydlu prosiect eiriolaeth rhanbarthol ar draws nifer o awdurdodau De Cymru. Roedd ymglymiad plant a phobl ifanc yn rhan allweddol o bob cam o'r prosiect. Sefydlodd y prosiect grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfranogi a luniodd gynllun gweithredu yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac a sefydlodd sut y byddai'r prosiect yn cynnwys plant a phobl ifanc. Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn ymarfer pleidleisio dangosol i ganfod y ganran o blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth oedd yn adrodd eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael gwrandawiad pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud oedd yn effeithio ar eu bywydau, ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc oedd wedi derbyn gwasanaethau eiriolaeth am eu profiadau o'r gwasanaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ar flaenoriaethau'r cynllun comisiynu, roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu manylebau ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynwyd. Roedd hyn yn cynnwys mesurau perfformiad â ffocws ar gyfer y darparwr newydd gan gynnwys casglu tystiolaeth gan blant a phobl ifanc am ansawdd y gwasanaeth eiriolaeth roedden nhw wedi'i dderbyn yn ogystal â gwybodaeth am y gwahaniaeth roedd y gwasanaeth wedi'i wneud i'w bywydau. Hefyd bydd plant a phobl ifanc yn ymwneud â'r adolygiadau gwasanaeth blynyddol, bwrdd rheoli'r corff ac yn cyfrannu at ddatblygu adroddiadau blynyddol.**

**Rhoddodd awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Chaerffili fanylion am sut y bu plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth gan gynnwys cymryd rhan yn y broses contractio a chomisiynu, eistedd fel aelodau ar y panel cyfweld ar gyfer y gwasanaeth newydd, cymryd rhan mewn prosiect eiriolaeth cymheiriaid, a bod yn rhan o grŵp gorchwyl a gorffen oedd yn ystyried argymhellion adroddiad a baratowyd ar gyfer yr awdurdod lleol gan eu darparwr eiriolaeth ar farn a phrofiadau plant yn derbyn gofal rhwng 10 a 18 oed.**

**Yng Nghaerdydd aeth grŵp y cylchlythyr a'r rhai sy'n gadael gofal i gyfarfod o'r pwyllgor craffu Plant a Phobl Ifanc i wneud cyflwyniad i gynghorwyr Caerdydd am ddyfodol gwaith cyfranogol yng Nghaerdydd. Gwahoddodd Tros Gynnal Plant, y darparwr eiriolaeth lleol, banel rhianta Caerdydd i'w swyddfeydd i gyfarfod â phobl ifanc i gynorthwyo'r panel rhianta yn eu gwerthusiad o'r gwasanaethau eiriolaeth. Mae Tros Gynnal hefyd wedi cynnwys pobl ifanc mewn digwyddiad ymgynghori ar gyfer eu grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc.**

Er gwaethaf yr ymarfer da hwn mae nifer o awdurdodau yn parhau i beidio â chynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiad y gwasanaeth er eu bod yn dweud eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi "Lleisiau Coll" nid wyf i'n credu bod y datganiadau canlynol yn dderbyniol:

**"Rydym ni'n bwriadu ffurfio grŵp plant a phobl ifanc fydd yn cynnwys edrych ar gynlluniau comisiynu'r dyfodol mewn perthynas ag eiriolaeth."**

**"Nid oes ffordd o ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel grŵp wedi bod gennym ni ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu fel blaenoriaeth."**

**"Mae'r contract eiriolaeth yn cael ei ail-dendro ar hyn o bryd ar sail ranbarthol ac unwaith y bydd hyn wedi'i gyflawni y cynllun yw y bydd pobl ifanc yn cael rhan lawn yn ffurfio ac adolygu'r gwasanaeth yn barhaus."**

Tra bo'r mwyafrif o awdurdodau'n cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu eu gwasanaethau, ac rwyf yn hyderus y bydd profiadau'r plant hynny'n gadarnhaol iawn, rwyf i'n ansicr am yr effaith y mae hyn yn ei gael ar y grŵp ehangach o blant a phobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ond sy'n dweud wrthyf nad ydyn nhw'n gwybod am eiriolaeth annibynnol neu nad ydyn nhw'n ei deall ac nad ydyn nhw'n gallu manteisio ar y gwasanaeth. Mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu mesurau perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau ac yn eu cynnwys yn y gwaith o fonitro perfformiad a chyfrannu at ddeall pam nad yw'r canlyniadau efallai'n cael eu cyflawni.

# Monitro gwasanaethau gan awdurdodau lleol

Roeddwn i wedi argymell y dylai awdurdodau lleol adolygu'r defnydd lleol o wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol gan blant a phobl ifanc yn eu hardal ac ymchwilio i unrhyw batrymau o ddefnydd isel. Er ei fod yn amlwg o adroddiadau awdurdodau lleol eu bod yn monitro'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth yn rheolaidd, roedd hyn yn tueddu gan amlaf i gael ei wneud drwy'r adroddiadau chwarterol oddi wrth eu darparwr eiriolaeth lleol. Ychydig o dystiolaeth oedd ar gael fod awdurdodau lleol yn mynd ati'n weithredol i edrych ar y defnydd o wasanaethau mewn perthynas â maint eu poblogaethau o blant yn derbyn gofal a phlant mewn angen er bod eithriadau i hyn.

**Yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ceir cyfarfodydd gweithrediadau eiriolaeth chwarterol gydag amrywiaeth o swyddogion yr awdurdod yn mynychu. Caiff patrymau o ddefnydd isel o eiriolaeth eu hadolygu a chaiff camau gweithredu eu dynodi i wella dealltwriaeth neu hybu ymwybyddiaeth.**

**Yn awdurdod lleol Gwynedd yn y cyfarfod monitro chwarterol gyda'r darparwr eiriolaeth caiff atgyfeiriadau eu hadolygu mewn perthynas â rhyw, oed, statws cyfreithiol, tarddiad yr atgyfeiriad, problemau a threfniadau byw. Mae hyn yn caniatáu cynnal trafodaeth wybodus am unrhyw batrymau neu broblemau y gellir eu hadnabod. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos bod anawsterau mewn perthynas â chyfraddau atgyfeirio isel a arweiniodd at nifer o sesiynau i godi ymwybyddiaeth staff. Roedd y dadansoddiad wedi dangos bod hunan-atgyfeiriadau'n gymharol uchel.**

**Yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot diweddarwyd y system TG gyfredol ym mis Chwefror 2014 i gynnwys gwybodaeth yn cadarnhau bod pob plentyn sy'n dod i mewn i'r system plant sy'n derbyn gofal wedi'i hysbysu am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, a bod y system yn gallu tracio niferoedd y plant a phobl ifanc oedd yn ymgymryd ag eiriolaeth. Y bwriad yw y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn chwarterol i aelodau, Prif Swyddogion a Rheolwyr Tîm.**

Roeddwn i hefyd wedi gofyn am wybodaeth gan awdurdodau lleol am yr adolygiad o wybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc oedd wedi eu lleoli y tu hwnt i'r sir ond ychydig iawn o wybodaeth a dderbyniwyd am hyn. O ystyried natur fregus y grŵp hwn o blant a phobl ifanc mae hyn yn annerbyniol.

# Ymwybyddiaeth staff

Tasg allweddol i ddarparwyr eiriolaeth yw sicrhau bod yr holl Weithwyr Cymdeithasol yn gwybod am eu gwasanaeth, yn ei ddeall ac yn ymwybodol ohono a sut i gyrchu'r gwasanaeth hwn ar ran y plant a phobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw. Ar adeg cyhoeddi "Lleisiau Coll" roedd yn amlwg fod hyn yn bell iawn o'r sefyllfa fel yr oedd hi. I'r perwyl hwn fe luniais argymhellion a fyddai yn fy marn i'n gwella gwybodaeth a dealltwriaeth Gweithwyr Cymdeithasol ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydden nhw'n cyfeirio achosion priodol at y darparwr eiriolaeth.

Roeddwn i wedi argymell y dylai holl raglenni ymsefydlu Gweithwyr Cymdeithasol a staff y Tîm Troseddau Ieuenctid gynnwys dealltwriaeth glir o fanteision ac ymarfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Byddwn wedi disgwyl i hwn fod yn argymhelliad hawdd ei weithredu, a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad proffesiynol staff newydd. Rwyf i'n ei chael yn anodd credu nad yw naw o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ac na chafodd Gweithwyr Cymdeithasol yn saith o'r awdurdodau hynny unrhyw fewnbwn uniongyrchol ynglŷn ag eiriolaeth fel rhan o'u rhaglenni ymsefydlu. Nid yw annog staff i ymweld â'u darparwr eiriolaeth fel rhan o'u hymsefydlu yn hytrach na'i fod yn orfodol iddyn nhw ymweld yn fy marn i yn anfon neges glir o'r brig fod eiriolaeth a llais y plentyn yn bwysig ac y dylai staff newydd ei gymryd o ddifrif. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi adrodd i mi fod dealltwriaeth a gwybodaeth Gweithwyr Cymdeithasol am eiriolaeth broffesiynol annibynnol mewn rhai awdurdodau lleol yn gyfyngedig, oedd yn golygu nad oedd Gweithwyr Cymdeithasol yn deall pam fod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn awgrymu bod angen eiriolwr neu ymwelydd annibynnol.

Cefais fy nghalonogi'n fwy gan yr wybodaeth a gefais mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth staff ar draws y timau gofal plant o fewn yr awdurdodau lleol. Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio eu darparwr eiriolaeth i godi ymwybyddiaeth staff am eu gwasanaeth ac mewn nifer o awdurdodau adroddwyd fod hyn yn estyn yn ehangach na thimau ymweld yn unig.

**Adroddodd awdurdod lleol Ynys Môn fod eiriolaeth bellach yn rhan o agenda'r cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio gyda staff, cyfarfodydd gwasanaeth, cyfarfodydd gweithrediadol a chyfarfodydd uwch reolwyr.**

**Adroddodd awdurdod lleol Sir Benfro am nifer o ddigwyddiadau lle cafodd eiriolaeth ei hyrwyddo gan gynnwys gweithdy-gwib i rannu gwybodaeth gyda'r holl staff gwasanaethau plant, presenoldeb mewn digwyddiad rhannu gwybodaeth ag ysgolion uwchradd, gweithdai gofal maeth, a gweithdai fforwm plant sy'n derbyn gofal.**

**Adroddodd awdurdod lleol Conwy hefyd am nifer sylweddol o ddigwyddiadau yr oedd eu darparwr eiriolaeth wedi'u mynychu gan gynnwys paneli rhianta corfforaethol, digwyddiad rhianta corfforaethol, digwyddiad eiriolaeth iechyd meddwl, cyflwyniadau gan gynghorwyr unigol, gweithdai protocol digartref a rhwydweithiau gwirfoddolwyr.**

Yr hyn a ddaeth yn amlwg o'r adborth hwn ac o'r cyfnewid tystiolaeth a gefais gyda darparwyr eiriolaeth yw pwysigrwydd cynnwys amser ac adnoddau i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn yn y contract eiriolaeth. Mae hyrwyddo'r gwaith maen nhw'n ei wneud a chyswllt rheolaidd gyda staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn allweddol i sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd eiriolaeth. Adroddodd darparwyr eiriolaeth fod rhai awdurdodau lleol yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac yn gweithio ar y cyd â'r darparwr eiriolaeth i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac chyswllt staff tra bo awdurdodau lleol eraill yn gosod holl faich ymgysylltu'n gadarn ar ysgwyddau'r darparwr eiriolaeth.

Roeddwn i wedi argymell yn "Lleisiau Coll" y dylid anfon copïau o adroddiadau chwarterol darparwyr eiriolaeth i holl staff y gwasanaethau plant a theuluoedd i helpu i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth ac atgoffa staff i drafod eiriolaeth gyda'r plant a phobl ifanc roedden nhw'n gweithio gyda nhw. Hefyd roedd disgwyl i ddarparwyr eiriolaeth sicrhau presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm i sicrhau dealltwriaeth glir o ymarfer a phrosesau lleol.

Ceir darlun cymysg ar draws ardaloedd awdurdod lleol o ran yr argymhelliad hwn. Cydnabu wyth o awdurdodau lleol nad ydyn nhw'n anfon copïau o'r adroddiad chwarterol at eu timau. Mae chwe awdurdod lleol arall yn dosbarthu'r adroddiad i reolwyr gan ddisgwyl iddyn nhw raeadru'r adroddiad i staff. Nid adroddodd neb a oedden nhw'n monitro hyn i sicrhau ei fod yn digwydd.

**Ceir dull mwy systematig o ddosbarthu'r adroddiad chwarterol yn awdurdod lleol Sir Ddinbych, lle caiff ei osod ar y storfa dogfennau gweithredol. Mae'r holl aelodau o staff yn y gwasanaethau plant a theuluoedd yn gallu cyrchu hwn. Caiff y prif faterion a amlygir yn adroddiad monitro chwarterol y darparwr gwasanaeth eu cynnwys yn adroddiad cynnydd Rhaglen Sicrhau Ansawdd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli a lefel gwasanaeth bob chwarter.**

Er bod y mwyafrif o awdurdodau lleol yn gallu darparu manylion am y nifer o ymweliadau roedd darparwyr eiriolaeth wedi'u gwneud â'u Tîmau Gwaith Cymdeithasol a Throseddau Ieuenctid, cydnabu tri awdurdod lleol na chafwyd unrhyw ymweliadau gan eu darparwr eiriolaeth ag unrhyw un o'u Timau Gwaith Cymdeithasol a Throseddau Ieuenctid yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2014. Diddorol yw nodi'r gwahaniaethau sy'n bodoli ar draws Cymru yn nhermau cyswllt gweithredol y darparwr eiriolaeth â staff gwasanaethau cymdeithasol.

# Ymwybyddiaeth ymhlith rhieni / gofalwyr maeth / gwarcheidwaid

Mae ymwybyddiaeth o Eiriolaeth yn bwysig i Weithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ond hefyd mae'n bwysig i'r rheini y mae plant a phobl ifanc yn byw gyda nhw. Roeddwn i wedi argymell yn "Lleisiau Coll" y dylai rhieni, gofalwyr maeth a gwarcheidwaid gael gwybodaeth glir a hyfforddiant am eiriolaeth annibynnol broffesiynol yn rheolaidd. Mae'n bwysig fod y bobl sy'n treulio'r gyfran fwyaf o amser gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn gwbl ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael ac nad yw'n gweld eiriolwr fel bygythiad posibl neu rywun a allai danseilio eu swyddogaeth gofalu nhw. Er bod gofalwyr o bosibl yn eu gweld eu hunain yn eiriolwyr naturiol ar ran y plentyn, efallai na fydd y plentyn yn rhannu'r farn hon ac y byddai'n dewis cael rhywun cwbl annibynnol i'w helpu i fynegi ei farn. Yn wir byddwn yn disgwyl i rieni, gofalwyr a gwarcheidwad chwarae rhan allweddol gan esbonio ac atgyfnerthu manteision posibl cael eiriolwr i'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'n ymddangos nad yw hon yn farn sy'n cael ei rhannu gan bob awdurdod lleol. Roedd rhai yn amlwg yn ceisio hyrwyddo eiriolaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy gynnwys gwybodaeth mewn canllawiau i blant, pecynnau gwybodaeth rhieni, ar wefannau awdurdodau lleol, ar wefannau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, neu drwy gylchlythyrau. Cyfaddefodd awdurdodau lleol eraill eu bod yn gwneud ychydig iawn, neu ddim o gwbl, i hyrwyddo i rieni neu ofalwyr ar wahân i ofalwyr maeth. Er ei bod yn ymddangos bod llawer o ymgysylltu gyda gofalwyr maeth, ychydig iawn, os o gwbl, o wybodaeth oedd ar gael ynglŷn â sut oedd yr awdurdod lleol yn ymgysylltu gyda rhieni neu ofalwyr eraill ar wahân i drwy daflenni cyffredinol neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol neu'r Swyddog Cwynion.

Roeddwn i wedi argymell yn "Lleisiau Coll" y dylai eiriolwyr fod yn gyfrifol am esbonio eu rôl i riant, rhiant maeth neu warcheidwad y plentyn er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gywir am eiriolaeth yn golygu y bydden nhw'n llai tebygol o weld eiriolaeth fel bygythiad ac felly'n fwy parod i hyrwyddo eiriolaeth. Nid oes gan y mwyafrif o awdurdodau lleol (14 o'r 22) system weithredol ar gyfer monitro a yw hyn yn digwydd tra bo eraill yn tueddu i ddibynnu ar y darparwyr eiriolaeth i adrodd ar hyn yn eu hadroddiadau chwarterol i'r awdurdod lleol. Nid yw'n ddigon da bod awdurdodau lleol yn talu cyn lleied o sylw i'r rheini a all ddarparu anogaeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc allu manteisio ar eiriolaeth ac mae angen gwneud mwy i annog rhieni a gofalwyr i hyrwyddo eiriolaeth i'w plant.

# Rhieni Corfforaethol

Mae rôl y rhiant corfforaethol yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo a chydnabod pwysigrwydd eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Fe gyflwynais i nifer o argymhellion yn "Lleisiau Coll" ar gyfer ymdrin â'r pryderon oedd gennyf nad oedd digon o ddealltwriaeth a gwybodaeth am eiriolaeth ymhlith aelodau etholedig, na digon o graffu ar y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu'n lleol. Roedd yn ymddangos i mi fod diffyg cadernid amlwg o ran craffu gwasanaethau eiriolaeth.

Mae'n ymddangos fod awdurdodau lleol wedi gwneud ymdrechion gwirioneddol i sicrhau bod rhieni corfforaethol yn cael eu hysbysu am eu gwasanaethau eiriolaeth lleol a'u bod wedi derbyn hyfforddiant arno. Fodd bynnag mae'r ddarpariaeth hyfforddiant a gwybodaeth i'w gweld yn amrywio'n fawr ar draws yr awdurdodau.

**Mae awdurdod lleol Sir Benfro'n cynnwys eiriolaeth fel rhan o'u rhaglen hyfforddi rhianta corfforaethol ar gyfer yr holl aelodau etholedig newydd. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant ar gael yn electronig i'r holl aelodau etholedig drwy safle datblygu i'r aelodau etholedig.**

**Yn awdurdod lleol Caerdydd caiff eiriolaeth ei chynnwys mewn sesiynau gwybodaeth i aelodau etholedig ar wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, caiff eiriolaeth ei hystyried gan y pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn flynyddol a chaiff sesiynau gwrando eu cynllunio i aelodau'r pwyllgor gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cydlynu gan y darparwr eiriolaeth. Mae'r Panel Rhianta Corfforaethol yn cyfarfod â'r darparwr eiriolaeth ac â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau eiriolaeth yn flynyddol, ac maen nhw hefyd yn cynnal ymweliadau safle â'r darparwr eiriolaeth i gyfarfod ag eiriolwyr a phlant a phobl ifanc.**

**Yn awdurdod lleol Abertawe caiff hyfforddiant i'r holl aelodau etholedig ar eu rôl fel rhieni corfforaethol ei gynnal bob blwyddyn ac ar yr achlysur diwethaf roedd pobl ifanc yn rhedeg rhan o'r sesiwn. Mae gwybodaeth i aelodau etholedig am eu rôl fel rhieni corfforaethol ar gael ar y fewnrwyd gan gynnwys copi o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru "Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da."**

Er ei bod yn ymddangos fod hyfforddiant a gwybodaeth gychwynnol yn cael eu darparu i aelodau sydd newydd eu hethol maen nhw lawer yn llai tebygol o dderbyn gwybodaeth barhaus am berfformiad eu gwasanaethau eiriolaeth lleol. Mae 14 o awdurdodau lleol wedi anwybyddu fy argymhelliad ynghylch anfon copi o adroddiad chwarterol y darparwyr eiriolaeth i'r holl aelodau etholedig. Mae'n ymddangos hefyd fod amrywiaeth sylweddol ym mhresenoldeb ac ymglymiad y darparwr eiriolaeth yn y Paneli Rhianta Corfforaethol. Mewn rhai awdurdodau bydd y darparwr eiriolaeth yn aelod o'r Panel Rhianta Corfforaethol a bydd yn adrodd ar y diweddaraf am y gwasanaeth yn rheolaidd, ond mewn awdurdodau eraill mae'n bosibl y bydd yn mynychu unwaith y flwyddyn, neu mewn rhai awdurdodau nid oes unrhyw ymglymiad gyda'r panel Rhianta Corfforaethol o gwbl.

Roeddwn i wedi argymell yn "Lleisiau Coll" y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr aelod etholedig sydd â chyfrifoldeb statudol am wasanaethau plant yn gweithredu fel hyrwyddwr lleol i eiriolaeth ac yn darparu arweiniad cryf yn y maes hwn. Roedd pum awdurdod lleol yn methu darparu manylion ynglŷn â sut roedd eu haelod etholedig yn hyrwyddo eiriolaeth. Fodd bynnag roedd nifer sylweddol o'r awdurdodau eraill yn gallu darparu manylion am sut roedd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei weithredu ac mae agweddau allweddol o ymgysylltu effeithiol a hyrwyddo eiriolaeth i'w gweld yn yr enghreifftiau canlynol:

**Yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yr aelod etholedig sy'n cadeirio'r panel rhianta corfforaethol y mae'r darparwr eiriolaeth yn aelod ohono, mae'n mynychu digwyddiadau cyfranogi sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, ac yn mynychu digwyddiad gwobrwyo blynyddol y plant sy'n derbyn gofal.**

**Yn awdurdod lleol Bro Morgannwg yr aelod etholedig â chyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc yw'r aelod etholedig dros Addysg hefyd ac mae'n cadeirio'r Panel Rhianta Corfforaethol.**

**Yn awdurdod lleol Ceredigion yr aelod etholedig yw cadeirydd fforwm y darparwr gwasanaeth i blant a phobl ifanc, mae'n cadeirio grŵp gweithredol y bwrdd gwasanaeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac yn eistedd ar y panel rhianta corfforaethol. Mae hefyd yn aelod o Gabinet Cyngor Ceredigion**

**Yn awdurdod lleol Pen-y-bont roedd yr aelod etholedig yn bartner cyfranogol yn y prosiect eiriolaeth rhanbarthol. Hefyd fe sefydlodd a chadeiriodd y sesiwn hyfforddi benodol i holl aelodau'r awdurdod ar y prosiect. Mae hefyd wedi sicrhau bod cabinet y cyngor a'i bwyllgor cabinet ar rianta corfforaethol yn derbyn adroddiadau ar gynnydd ac yn gwneud penderfyniadau ar ddatblygiad y gwasanaeth eiriolaeth.**

**Yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot mae gan yr aelod etholedig sy'n dal y portffolio gwasanaethau plant a phobl ifanc ddiddordeb eang mewn cefnogi a gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae wedi gweithio fel gwirfoddolwr gyda'r Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol / y Tîm Troseddau Ieuenctid, mae'n is-gadeirydd llywodraethwyr dwy ysgol gynradd, yn gefnogwr gweithredol i uned hawliau plant Castell-nedd Port Talbot ac yn cysylltu'n gyson â'r rheolwr, ac mae'n gyfarwyddwr ac yn wirfoddolwr gyda Fforwm Ieuenctid Baglan.**

Er gwaethaf ymrwymiadau fel y rhain rwyf i'n parhau'n bryderus am y lefel o drefniadau craffu o ran eiriolaeth. Roeddwn i wedi gofyn i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i mi yn nodi pa bwyllgor craffu sy'n craffu ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dywedodd 14 o awdurdodau lleol nad ydyn nhw'n cael eu craffu'n rheolaidd gan aelodau o'r awdurdod lleol o ran y ddarpariaeth eiriolaeth tra bo eraill wedi adrodd mai cyfrifoldeb y panel rhianta corfforaethol yw craffu ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Roedd llawer o'r wybodaeth a gefais gan awdurdodau lleol yn hyn o beth yn amwys ac yn brin o fanylion. Roedd enghreifftiau o ymarfer da yn cynnwys:

**Pwyllgor craffu plant a phobl ifanc Caerdydd a fu'n trafod materion yn ymwneud ag eiriolaeth mewn tri chyfarfod gwahanol yn 2013, ym mis Mai i ystyried adroddiad ar ganlyniadau digwyddiad gwrando gyda phlant sy'n derbyn gofal a wnaed mewn partneriaeth gyda gwasanaethau eiriolaeth y cyngor, ym mis Mehefin pan fu'r pwyllgor yn craffu ar gynllun busnes y gwasanaethau plant oedd yn cynnwys gweithredu a blaenoriaethau'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaethau eiriolaeth ac ym mis Gorffennaf ar gyfer craffu cyn penderfynu ar y cynllun comisiynu eiriolaeth ranbarthol gydweithredol.**

**Mae Pwyllgor Craffu Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Caerffili wedi gwrando ar gyflwyniad am eu rôl fel rhieni corfforaethol gan aelod o Grŵp Shout Out Caerffili, wedi cael cyflwyniad ar ymateb yr awdurdod i "Lleisiau Coll", ac wedi cael cyflwyniad gan NYAS, darparwr eiriolaeth yr awdurdod, am y gwaith mae'n ei wneud a'r cwestiynau sydd wedi'u codi gan blant a phobl ifanc gyda nhw.**

**Yn awdurdod lleol Sir Benfro mae eiriolaeth a chyfranogiad yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg Diogelwch a Chraffu. Yn dilyn adolygiad llawn o drefniadau Eiriolaeth a Chyfranogi yn Sir Benfro ym mis Mawrth 2013 mae eiriolaeth wedi'i gosod ar agenda'r pwyllgor hwnnw ar dri achlysur**

## Cynnydd mewn perthynas â Llywodraeth Cymru

Yn "Lleisiau Coll" roeddwn i'n feirniadol am yr hyn roeddwn i'n ei weld yn ddiffyg arweiniad a chyfeiriad strategol ar lefel genedlaethol mewn perthynas â datblygu a chyflwyno fframwaith eiriolaeth i blant a phobl ifanc oedd wedi addo cymaint, ond oedd mewn perygl o gael ei wthio i'r ymylon a'i anghofio o fewn cyd-destun polisi blant a phobl ifanc ehangach o lawer a newidiol.

Cyflwynais nifer o argymhellion penodol iawn i Lywodraeth Cymru am yr hyn roeddwn i'n credu y dylen nhw fod yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennyf.

# Arweiniad Strategol

Rwyf i'n falch fod Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth a Grŵp Arbenigol Pobl Ifanc wedi'u sefydlu, gan ymgymryd â dyletswyddau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol blaenorol. Mae'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol eisoes wedi llunio, ym mis Rhagfyr 2013, adroddiad clir a phwerus iawn i Weinidogion ar Gomisiynu darpariaeth ac rwyf i'n ymwybodol fod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn ddiweddar, yn annog partneriaid i roi ystyriaeth ddyledus i roi argymhellion yr adroddiad ar waith. Yn y llythyrau a anfonwyd yn ystod mis Mehefin 2014 mae'r Dirprwy Weinidog yn pwysleisio ei bod yn credu bod 'darparu gwasanaethau eiriolaeth statudol effeithiol yn hanfodol i wella canlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru'. Mae'n ymddangos i mi fod y Grŵp Arbenigol Gweinidogol wedi dechrau darparu cyngor ac arweiniad i Weinidogion fydd yn eu galluogi i wneud y penderfyniadau pwysig am gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau eiriolaeth yn y dyfodol sy'n angenrheidiol os ydym am weld newid sylweddol ym mhrofiadau plant a phobl ifanc.

Rwyf i'n parhau i fod yn bryderus am gyflymder y newid ar lefel leol, ac fel y gwelir o farn plant a phobl ifanc yn y ddwy flynedd ers cyhoeddi "Lleisiau Coll" does dim llawer i'w weld wedi newid o ran eu profiad, dealltwriaeth a gwybodaeth nhw am eiriolaeth. Rwyf i'n cydnabod bod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi anfon sawl cyfathrebiad ffurfiol at awdurdodau lleol yn eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag eiriolaeth – Mai 2012, Rhagfyr 2012, Rhagfyr 2013 – a bod y cyd-ddatganiad gweinidogol y cyfeiriwyd ato yn flaenorol yn yr adroddiad hwn yn anfon neges glir a diamwys i awdurdodau lleol am bwysigrwydd eiriolaeth ond nid wyf i wedi fy argyhoeddi bod y llythyrau a'r datganiadau hyn wedi cael yr effaith a ddymunwyd. Rwyf i'n croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog yn ei llythyr diweddaraf yn ymwneud â chyllidebau dyranedig awdurdodau lleol ar gyfer eiriolaeth, bod yr adroddiadau wedi amlygu'r gwahaniaethau amlwg o ran cyllido ar draws Cymru.

Er bod rhai awdurdodau lleol yn amlwg yn blaenoriaethu pwysigrwydd llais y plentyn ynghyd â phopeth mae hynny'n ei olygu, mae llai o ymrwymiad i'w weld gan eraill ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc. Mae gwybod yr effaith sylweddol y mae eiriolaeth yn ei gael ar fywydau plant a phobl ifanc yn golygu os oes un plentyn nad yw ei lais yn cael gwrandawiad, bod hynny'n un plentyn yn ormod. Mae angen sicrhau trefn ar gyfer dal awdurdodau lleol yn atebol am ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn a swyddogaeth Llywodraeth Cymru, drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw codi safonau, gwella ansawdd a hyrwyddo ymarfer gorau ar draws y sector gofal cymdeithasol.

# Monitro, Arolygu a Rheoleiddio

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi datgan ei bod yn dymuno dod ag eriolaeth i mewn i'r system reoleiddio ac y caiff hyn ei gyflawni o fewn cwmpas y Bil Rheoleiddio ac Arolygu arfaethedig. Rwyf i'n gweld hyn fel cyfle gwirioneddol i'r gwasanaethau eiriolaeth gael cydnabyddiaeth briodol gyda'r pwysigrwydd maen nhw'n ei haeddu ac i reoleiddio ac arolygu chwarae rhan allweddol yn cyfrannu at safoni gwasanaethau ar draws Cymru. Serch hynny rwyf i'n bryderus ei bod yn cymryd cyhyd i symud hyn yn ei flaen. Gan nad yw'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu'n debygol o ddod i rym tan 2017 yn amlwg mae angen sefydlu trefniadau dros dro ar gyfer monitor cyflenwi a rheoleiddio gwasanaethau eiriolaeth.

Rwyf i'n croesawu cyhoeddi'r 'Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, 2014-15'[2] yn ddiweddar. Rwyf i'n ystyried hyn yn gam pwysig at sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu mewn modd a fydd yn darparu tystiolaeth ddiriaethol o'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc. Dylai newidiadau allweddol sicrhau bod egwyddor gwasanaethau cymdeithasol wedi'i seilio ar les plant sydd angen gofal a chymorth, drwy rymuso â mwy o lais a rheolaeth. Rwyf i'n gwybod bod addasiad o'r 'Fframwaith safonau a chanlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru[3]' yn dal i fod ar waith. Rwyf i'n edrych ymlaen at weld sut y bydd cydraddoldeb rhwng y fframweithiau canlyniadau hyn yn cyfrannu at fonitro lles plant a hefyd at ddatblygu safonau gwasanaeth fydd yn caniatáu i eiriolaeth ddod yn wasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. Fodd bynnag oni bai bod trefniant yn cael ei sefydlu i ddal awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn atebol am ddarpariaeth y gwasanaethau, mae'n annhebygol y bydd profiadau cyfredol plant a phobl ifanc yn newid.

Yn "Lleisiau Coll" roeddwn i wedi'i wneud yn glir fy mod yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu Uned Eiriolaeth benodol gyda chylch gorchwyl i hyrwyddo ymarfer gorau a sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei gyflwyno drwy ymgysylltu a chefnogi gwasanaethau lleol yn erbyn safonau cenedlaethol ar draws Cymru. Roeddwn i wedi argymell y dylai uned o'r fath ddatblygu a rhannu rhaglen waith flynyddol gyda rhanddeiliaid allweddol. Heb y ffocws hwn o du'r llywodraeth ganolog gan gynnwys atebolrwydd priodol, roedd yn amlwg i mi nad oedd y sefyllfa ar lefel leol yn debygol o newid yn sylweddol. Roeddwn i wedi tybio y byddai llais y plentyn a chynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel elfennau allweddol oedd yn gyrru polisi plant a phobl ifanc Llywodraeth Cymru yn sicrhau y byddai'r pryderon roeddwn i wedi'u codi am eiriolaeth yn cael eu datrys drwy waith uned benodol ar gyfer eiriolaeth.

Hyd yma ychydig o dystiolaeth rwyf i'n ei gweld fod unrhyw weithredu wedi'i wneud ar yr argymhelliad hwn. Nid oes uned eiriolaeth benodol er ei fod yn galondid i mi weld bod proses recriwtio ar fin cael ei chynnal ar gyfer gweithiwr tymor penodol i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i helpu i hyrwyddo ymarfer gorau cyson ar draws llywodraeth leol. Amlygodd "Lleisiau Coll" bod angen sicrhau capasiti a blaenoriaeth i eiriolaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac rwyf i'n croesawu'r secondiad hwn i gynorthwyo â darparu swyddogaeth arwain a galluogi.

2 http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/140624NOFcy.pdf
3 http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/130318childrenconsultationcy.pdf

Nid yw'r newid sefydliadol yn Llywodraeth Cymru sydd wedi gweld y portffolio eiriolaeth yn syrthio rhwng dau weinidog a'u hadrannau wedi bod o gymorth i'r ffocws ar eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Ar adeg cyhoeddi 'Lleisiau Coll' roedd cylch gorchwyl eiriolaeth yn eistedd gyda Changen Grymuso Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru gan adrodd yn uniongyrchol i'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn aildrefnu mewnol mae eiriolaeth bellach yn eistedd rhwng y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi – mewn perthynas ag eiriolaeth plant, hawliau plant a phobl ifanc, a'r CCUHP – a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol – o ran darpariaeth eiriolaeth statudol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.

Mae'r Gangen Grymuso Plant a Phobl Ifanc sy'n eistedd o fewn portffolio'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cymryd y cyfrifoldeb am drefnu'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth ac am drefnu'r gynhadledd eiriolaeth genedlaethol er bod cylch gorchwyl yr elfen hon o eiriolaeth yn eistedd gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhan o'r rheswm dros argymell sefydlu uned eiriolaeth benodol yn canolbwyntio ar eiriolaeth oedd y byddwn i'n cael copi o'i rhaglen waith flynyddol a fyddai'n fy ngalluogi i weld pa waith sy'n cael ei gynllunio a'i wneud mewn perthynas â'r pryderon roeddwn i wedi'u codi, ac a fyddai'n fy ngalluogi i fonitro cynnydd at gyflawni'r amcanion hynny gan ddefnyddio fy mhwerau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rwyf i wedi methu â gwneud hyn ac rwyf i'n credu bod rhannu'r cyfrifoldebau rhwng dwy gangen o lywodraeth gyda gweision sifil yn gweithio i wahanol Weinidogion sydd â blaenoriaethau gwahanol wedi effeithio ar y ffocws roeddwn i'n dymuno ei weld ar eiriolaeth.

Fel y sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, nid yw materion yn ymwneud â threfniadau mewnol y Llywodraeth o ddiddordeb i mi oni bai eu bod yn cael effaith niweidiol ar wireddu hawliau dynol fel y'i hymgorfforir yn y CCUHP. Wrth ymgymryd ag adolygiad statudol fel yr wyf wedi'i wneud gyda "Lleisiau Coll" rwyf i'n cael fy nghyfarwyddo'n gyfreithiol i edrych a yw'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y rhai sy'n destun yr adolygiad yn rhai sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant yn effeithiol[4]. Mae fy nghylch gorchwyl yn caniatáu i mi wneud argymhellion yn dilyn 'Adolygiad o Swyddogaethau' ac mae hefyd yn caniatáu i mi gyhoeddi pan fydd sefydliad wedi methu â dilyn argymhellion rwyf i wedi'u gwneud. Felly nid ar chwarae bach yr wyf i'n gwneud y galwadau hyn wrth i mi annog Gweinidogion Cymru i ateb fy ngalwadau a chymryd camau ar unwaith i flaenoriaethu'r hawliau statudol sydd gan blant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

4 Deddf Safonau Gofal 2000

## Casgliad

Ddwy flynedd yn ôl fe gyflwynais i adroddiad oedd yn egluro fy mhryderon am grŵp o blant a phobl ifanc agored i niwed yr oeddwn i'n teimlo eu bod yn cael eu gadael i lawr yn ddifrifol gan system nad oedden nhw yn ôl pob tebyg yn dymuno bod yn rhan ohoni, ac nad oedd yn gwrando'n iawn ar yr hyn roedden nhw'n ei ddymuno. Nid diffyg seilwaith nac arweiniad i ddarparu'r gwasanaeth oedd yn gyfrifol am hyn, ond am nad oedd gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol i'r rhai y dylen nhw fod yn eu cyrraedd, am nad oedd y rheini a ddylai fod yn eu derbyn yn eu deall yn iawn, ac am eu bod yn anghyson o ran cyllido ac adnoddau. Roedd unrhyw reoleiddio ac arolygu hefyd yn aneffeithiol.

Cyflwynais i nifer o argymhellion (gweler Atodiad 2) i Lywodraeth Cymru ac i awdurdodau lleol yr oeddwn i'n meddwl y bydden nhw'n gymorth i ddatrys y pryderon roeddwn i wedi'u codi ac a fyddai'n ailfywiogi partneriaid cenedlaethol a lleol i fynd ati i roi Cymru'n ôl ar y trywydd iawn i gyflawni ei dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed.

Hyd yma rwyf i'n teimlo ein bod wedi methu'r plant a phobl ifanc agored i niwed hynny. Ni allaf wadu bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond bu'n anghyson ac yn araf. Mae awdurdodau lleol wedi dewis peidio â gweithredu ar argymhellion oedd yn ymddangos yn syml, ac a fyddai'n caniatáu iddyn nhw wybod a oedd eu gwasanaethau wedi gwella. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu'r egni a'r penderfyniad i wthio newid ar y cyflymder priodol. Cafwyd gormod o esgusodion ynghylch pam nad yw newid wedi digwydd yn fwy cyflym ac yn y cyfamser mae sefyllfa plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn debyg iawn i'r hyn yr oedd hi ddwy flynedd yn ôl. Mae'r sefyllfa a ddisgrifiwyd gan gadeirydd y Grŵp Arbenigol Cenedlaethol ar Eiriolaeth yn ei adroddiad i Weinidogion ar Gomisiynu Darpariaeth yn crynhoi'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru yn deg:

"Ceir enghreifftiau o ymarfer da ond yr argraff gyffredinol yw un o loteri cod post, gyda gwaith i hyrwyddo eiriolaeth i blant a phobl ifanc, eu dealltwriaeth nhw o eiriolaeth a'u gallu i fanteisio arni, ansawdd a chwmpas y comisiynu a'r ddarpariaeth a monitro canlyniadau'n gwahaniaethu'n sylweddol o un awdurdod lleol i'r llall. Mae'n ymddangos yn ddibynnol i raddau helaeth ar gytundeb dros dro rhwng y rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau plant ac yn seiliedig ar gyfrifiadau "bys yn y gwynt" yn hytrach nag unrhyw amcangyfrifon mwy gwyddonol o'r angen."

Er mwyn sicrhau unrhyw newid gweladwy yn y dyfodol mae angen i ni feddwl am ffordd newydd i gyflenwi'r gwasanaeth hwn. Nid yw'r model comisiynu cyfredol gan awdurdodau lleol, boed yn unigol neu drwy waith rhanbarthol, yn gweithio'n effeithiol. Nid wyf i wedi fy argyhoeddi y bydd gwasanaeth sy'n cynrychioli rhan mor fach o gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol fyth yn sicrhau'r flaenoriaeth y dylai gael os yw comisiynu'n aros ar lefel leol. Heb newid sylweddol mae'r model lleol hwn o gomisiynu'n debygol o barhau â'r diffygion sydd yn y ddarpariaeth gyfredol, sydd wedi'u cofnodi'n helaeth. Mae'n bryd i ni symud at fodel cenedlaethol o gomisiynu yn y gobaith y byddai'n darparu'r ffocws, y sbardun a'r strwythurau atebolrwydd sydd, yn fy ngolwg i, yn absennol ar hyn o bryd.

Rydym ni eisoes wedi dechrau cryfhau arweinyddiaeth ranbarthol er mwyn sicrhau newid trawsnewidiol o ran gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac ni welaf unrhyw reswm na ellid mabwysiadu'r un agwedd at eiriolaeth[5]. Ni ddylem amddifadu ein plant wrth fynd ati i greu gwasanaethau newydd sydd â'r nod o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth ac rwyf i'n cytuno â datganiad diweddar y Dirprwy Weinidog sy'n cadarnhau bod 'ein gallu i sicrhau trawsnewid er lles pobl yn dibynnu ar ein harweinyddiaeth genedlaethol a rhanbarthol[6]'. Mae'r ymarfer da a geir yn y model cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon, a'r buddion a ddaw yn ei sgil i blant sy'n derbyn y gwasanaeth, wedi cynorthwyo gyda'r gwaith mae Dr Mike Shooter wedi'i gwblhau gyda'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth. Byddai newid diwylliannol o'r math hwn yn arbennig o amserol wrth i ni roi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar waith ar draws Cymru'n ddiweddarach eleni. Mae hwn yn fodel partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, CLlLC ac ADSS sy'n dibynnu ar gyflawni drwy gydweithio'n rhanbarthol, felly gallai gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru ddilyn y cynsail sydd wedi'i osod gan y gwasanaeth cenedlaethol newydd hwn yn rhwydd.

5 http://wales.gov.uk/newsroom/healthandsocialcare/2014/140626regional-leadership/?lang=cy
6 http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

Rwyf i'n ymwybodol fod deddfwriaeth ac arweiniad newydd wedi bodoli, ac y bydd yn parhau i fodoli wrth roi'r Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy[7] ar waith, gan barhau i foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Rhaid i ni gydnabod bod y fframwaith statudol hwn yn bodoli, ond nid yw'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â hawl i gael gwrandawiad mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Does dim yn ein hatgoffa'n gliriach o hyn na'r honiadau newydd sydd wedi ymddangos o gam-drin hanesyddol yng ngogledd Cymru a sefydlu Operation Pallial ac Adolygiad Macur. Mae amlygrwydd sgandalau cam-drin hanesyddol ar hyn o bryd yn dangos pa mor bwysig yw hi i ni sicrhau ar unwaith bod y gwasanaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn gweithio'n iawn heddiw. Mae eiriolaeth yn ein galluogi i greu diwylliant lle'r ydym ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc, diwylliant lle gallwn ni ddiogelu ein plant yn well. Yn gryno, mae eiriolaeth yn diogelu plant a phobl ifanc.

7 ibid

Yr argymhelliad canolog yn 'Ar Goll Mewn Gofal: adroddiad Waterhouse' oedd sefydlu Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru a dylai dyletswyddau'r comisiynydd hwnnw gynnwys sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu drwy oruchwylio gweithrediad y gwasanaeth eiriolaeth i blant[8]. Mae fy swyddogaeth i a swyddogaeth fy swyddfa yn rhyng-ddibynnol, gyda'r egwyddorion sy'n sail i eiriolaeth fel gwasanaeth diogelu sylfaenol, ac ni allwn dderbyn y sefyllfa gyfredol, lle mae gallu ein plant a phobl ifanc mwyaf bregus i fanteisio ar eiriolaeth, ynghyd ag ansawdd y gwasanaeth hwnnw, yn loteri cod post.

8 Ar Goll Mewn Gofal, 2000

Mae gweithredu diweddar gan Weinidogion Cymru ar eiriolaeth wedi amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth strategol gref, barhaus. Er bod fy rhwystredigaethau i wedi parhau i fod yn amlwg fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, yn dilyn cyfarfodydd diweddar gyda gweinidogion rwyf i'n hyderus y gallwn, fel blaenoriaeth, adeiladu ar y momentwm hwn a sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â hawl statudol i'w derbyn yn datblygu i fod yn well na fy nghanfyddiad i ohonynt yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd. Mae eiriolaeth yn gallu gwella bywydau plant, ac mae'n gwneud hynny – rwyf i wedi gweld a chlywed am yr effaith y mae yn ei gael ar fywydau plant drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd. Mae'r sefyllfa gyfredol, lle mae'r prif drefniant diogelu i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn anaddas i'r diben yn 2014 yn annerbyniol, ac mae'n bryd gweithredu. Ni allwn ni fod mewn sefyllfa ar 1 Mawrth 2015 lle bydd y Comisiynydd newydd yn ymgymryd â'r swydd ac yn gorfod wynebu'r un problemau ag sydd wedi bod yn rhwystredigaeth i mi drwy gydol fy nghyfnod i.

## Argymhellion

Dylid darllen yr argymhellion hyn ar y cyd â'r rhai a geir yn "Lleisiau Coll" a "Lleisiau Coll: Cynnydd Coll" (gweler Atodiad 2)

**Argymhelliad 1:**
Galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu model cenedlaethol o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol gyda manyleb gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Argymhelliad 2:**
Galw ar Lywodraeth Cymru ac AGGCC i sicrhau trefniadau interim i fonitro a rheoleiddio'r modd y caiff gwasanaethau eiriolaeth eu cyflenwi tra bo'r fframwaith rheoleiddio ac arolygu'n cael ei ddatblygu.

**Argymhelliad 3:**
Galw ar Awdurdodau lleol i wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth i blentyn neu berson ifanc sy'n mynd i mewn i'r system gofal plant statudol ar y cyfle cynharaf posibl. Dylid gwneud y cynnig mewn cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng y plentyn neu'r person ifanc ac eiriolwr proffesiynol annibynnol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hysbysu'n llawn am eu hawliau ac yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â swyddogaeth eiriolaeth annibynnol. Dylai'r cynnig gweithredol hwn barhau drwy gydol cyfnod plentyn neu berson ifanc mewn gofal, a dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol ei fonitro drwy'r adolygiadau statudol (Mae'r Argymhelliad hwn yn disodli argymhelliad 2 yn "Lleisiau Coll").

**Argymhelliad 4:**
Galw ar Awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn sefydlu trefniadau cofnodi sy'n nodi bod cynnig gweithredol o eiriolaeth wedi'i wneud, ac sy'n cofnodi a yw'r cynnig wedi'i dderbyn.

**Argymhelliad 5:**
Galw ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cynrychiolydd o blith staff hŷn eu gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol comisiynedig yn aelod o'r panel rhianta corfforaethol.

## Atodiad 1

| Awdurdod lleol | Targed | Y nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 26 | 15 (58%) |
| Pen-y-bont | 57 | 15 (26%) |
| Caerffili | 68 | 42 (62%) |
| Caerdydd | 118 | 53 (45%) |
| Sir Gaerfyrddin | 57 | 6 (11%) |
| Ceredigion | 22 | 29 (132%) |
| Conwy | 27 | 18 (67%) |
| Sir Ddinbych | 30 | 23 (77%) |
| Sir y Fflint | 21 | 22 (105%) |
| Gwynedd | 33 | 12(36%) |
| Ynys Môn | 19 | 19 (100%) |
| Merthyr | 28 | 11 (39%) |
| Sir Fynwy | 24 | 14 (58%) |
| Castell-nedd Port Talbot | 72 | 1 (1%) |
| Casnewydd | 54 | 7 (13%) |
| Sir Benfro | 27 | 22 (81%) |
| Powys | 36 | 7 (19%) |
| Rhondda Cynon Taf | 94 | 10 (11%) |
| Abertawe | 84 | 39 (46%) |
| Bro Morgannwg | 32 | 13( 41%) |
| Torfaen | 50 | 7 (14%) |
| Wrecsam | 32 | 13(41%) |

# Atodiad 2

**Argymhellion 'Lleisiau Coll' (2012)**

| Materion a godwyd yn yr adroddiad | Argymhellion i Lywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Diffyg arweiniad strategol** | Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol clir i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd yn gymwys yn statudol i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol, lle bynnag y mae'n byw yng Nghymru, yn gallu manteisio ar wasanaeth o'r fath drwy drefniadau ac arferion clir a chyson. (Argymhelliad 15)<br><br>Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, safonau a fframwaith canlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn ddi-oed. (Argymhelliad 23)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ar unwaith. (Argymhelliad 24)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu Uned Eiriolaeth benodol sy'n canolbwyntio ar eiriolaeth, â chylch gorchwyl cryfach i hybu'r arferion gorau a sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu drwy ymgysylltu â darparwyr lleol a rhoi cefnogaeth iddynt ar sail safonau cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan. Dylai'r rhaglen waith ar gyfer yr Uned gael ei datblygu a'i rhannu'n flynyddol â chomisiynwyr, darparwyr, arolygiaethau a Chomisiynydd Plant Cymru. (Argymhelliad 26)<br><br>Dylai'r Uned Eiriolaeth a fydd yn cael ei hail-lansio ddod â chomisiynwyr, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyfarfod blynyddol i edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ar sail y safonau cenedlaethol, i rannu'r arferion gorau ac i nodi amcanion datblygiadol a allai ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt. (Argymhelliad 27)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a phendant ar gomisiynu eiriolaeth annibynnol i awdurdodau lleol. (Argymhelliad 11)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu fformiwla ariannu genedlaethol fel sail i'r broses o neilltuo cyfran o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn unol ag angen lleol a nodwyd. (Argymhelliad 13)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd gyson ym mhob rhan o Gymru. (Argymhelliad 19) |

**Argymhellion 'Lleisiau Coll' (2012)**

| Materion a godwyd yn yr adroddiad | Argymhellion i Lywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Diffyg monitor, arolygu a rheoleiddio** | Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau atebolrwydd priodol a chadarn yng nghyd-destun eiriolaeth o fewn y llywodraeth. (Argymhelliad 25)<br><br>Rhaid sefydlu ffordd o reoleiddio ac arolygu fel mater o frys. Dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei chynnwys yn y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a dylent sefydlu proses i gofrestru darparwyr eiriolaeth. (Argymhelliad 28)<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i leoliadau preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sefydlu trefniadau ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol. (Argymhelliad 29) |

**Argymhellion "Lleisiau Coll, Cynnydd Coll" (2013)**

Gwneir yr argymhellion canlynol yn unol â'm pwerau a'm swyddogaethau sy'n deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'r argymhellion hyn yn ychwanegol at y rhai a wnaed yn "Lleisiau Coll" ac maent yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Byddwn yn disgwyl i gamau gweithredu yng nghyswllt yr argymhellion hyn dderbyn sylw yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol:

1. **Bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar y model a ffafrir ganddynt ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth trwy gyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddaru.**

2. **Bod Llywodraeth Cymru'n comisiynu ymchwil sylfaenol ar effeithiolrwydd eu model ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth er mwyn helpu i bennu a yw eu model yn darparu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.**

3. **Bod y Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn monitro, yn flynyddol, y trefniadau comisiynu ac ariannu sydd ar waith ar draws 22 ardal awdurdod lleol, i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol priodol ar gael i blant a phobl ifanc sydd â hawl statudol i dderbyn gwasanaeth eiriolaeth.**

4. **Bod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn hyrwyddo defnydd o 'fformwla ariannu' a fydd yn pennu faint y dylai awdurdodau lleol fod yn ei wario ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, fel bod cysondeb yn hyn o beth ledled Cymru.**

**0808 801 1000 / 80800***
**post@complantcymru.org.uk**

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

**@complantcymru**
**www.complantcymru.org.uk**

Ysgrifennwch aton ni:
**Comisiynydd Plant Cymru**
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**
**Abertawe SA7 9FS**

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn gwahanol fformatau drwy ffonio ni ar 01792 765600 neu e-bostiwch post@complantcymru.org.uk